



Llun: Roy Campbell-Moore "Newport Legends" 2017

Uwch Gynhyrchydd  
Pecyn Gwybodaeth  
Hydref 2020

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am eich diddordeb yn swydd llawrydd Uwch Gynhyrchydd.

Mae Operasonic yn sefydliad opera cymunedol bach sy'n seiliedig yng nghanol cymuned Casnewydd. Caiff ei yrru gan angerdd am opera a'r gymuned y mae'n byw ac yn gweithio ynddi. Dan arweiniad Rhian Hutchings, ein cyfarwyddwr sefydlu, bu pum mlynedd cyntaf ein gwaith ynglŷn ag agor sgysiau gydag ysgolion, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, teuluoedd ac artistiaid yng Nghasnewydd ac ymchwilio sut maent yn dylanwadu a chreu opera.

Mae ein cyfarwyddwr sefydlu nawr wedi camu'n ôl i ymuno â'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae swydd yr Uwch Gynhyrchydd yn agor cyfle i rywun newydd arwain a mynd ag Operasonic i gam nesaf ei ddatblygiad. Fel swydd lawrydd dros gyfnod penodol, mae'r Bwrdd yn sylweddoli y bydd hyn yn her. Rydym yn ymroddedig iawn i gefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus i wneud y gwaith gorau posibl a chanfod ffordd i barhau i weithio gyda ni i'r dyfodol.

Mae gan Operasonic berthynas gydag amrywiaeth o gyfansoddwyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr a chynhyrchwyr llawrydd yn ogystal â rhwydwaith cryf o fewn y sector celfyddydau yng Nghymru. Mae'r sefydliad hefyd yn aelod o RESEO – rhwydwaith addysg opera, cerddoriaeth a dawns yn Ewrop – a bu'n weithredol wrth edrych am gyfleoedd yn Ewrop dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae ein gwaith yn adnabyddus ac yn uchel ei barch a gobeithiwn feithrin ein henw da ymhellach dros y pum mlynedd nesaf.

Mae cyfranogiad yn ganolog i'n hymarfer a rhoddwn gefnogaeth i bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a'u doniau. Mae hyn yn trosi i'r ffordd yr ydym yn trin ein staff. Rydym eisiau i bawb y gweithiwn gyda nhw i dyfu drwy eu gwaith gyda ni. Efallai y teimlwch eich bod angen mwy o brofiad i wneud cais am y swydd hon – ond dywedwch wrthym sut y gallwn eich cefnogi i wneud eich gwaith gorau. Rydym yn ymroddedig i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal a rydym yn awyddus i glywed gan ystod eang o ymgeiswyr.

Mae mwy o wybodaeth ar waith Operasonic ar gael ar ein gwefan [www.operasonic.co.uk](http://www.operasonic.co.uk). Byddwn yn hapus iawn i drafod y swydd gyda chi, felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost ataf i [shwmae@operasonic.co.uk](mailto:shwmae@operasonic.co.uk) os gwelwch yn dda.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich llythyr cais.

Charles Williams

Cadeirydd Ymddiriedolwyr, Operasonic

## AM OPERASONIC

Mae Operasonic yn gwmni dim-er-elw cyfyngedig drwy warant a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2014 gan Rhian Hutchings, y Cyfarwyddwr Gweithredol, ac mae'n seiliedig yng Nghasnewydd.

Mae Operasonic yn angerddol am ddau beth: opera fel dull celf sy'n gysylltu gyda phobl mewn ffordd uniongyrchol a dwfn, pobl ifanc a'u potensial a'u creadigrwydd.

Grymuswn bobl ifanc i fod yn berchen ar opera, fel cynulleidfaoedd, fel cyfranogwyr, fel rhai sy'n creu, fel arweinwyr; i'w greu ar eu telerau eu hunain ac yn eu cymunedau, canolfannau, ysgolion a gofodau ar-lein; i ailddychmygu sut mae opera'n siarad gyda phobl ifanc heddiw.

Rydym yn creu amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc ymchwilio, creu a phrofi opera, ac i ddathlu opera ar gyfer pobl ifanc bob man y caiff ei greu.

Llun: Roy Campbell-Moore, Mabinogion Chwedl a Chân 2019



## PROSIECTAU PRESENNOL

Mae Operasonic yn cynnal ac yn cynllunio nifer o brosiectau gwahanol yng nghymuned Casnewydd a thu hwnt ar hyn o bryd.

Mae Nightmare Scenario yn brosiect preswyliaeth gyda chynhyrchiad yn ganolog iddo a gynhelir yn Stiwdio Theatr Glanrafon. Bydd prosiectau cymunedol yn arwain at y cyfle preswyl ac yn perfformio wrth ochr y cynhyrchiad yn ystod y cyfnod preswyl.

Mae'r Lullaby Project yn brosiect ysgrifennu caneuon a gafodd ei greu gan Carnegie Hall. Mae Operasonic yn bartner i Lullaby ac yn bwriadu cynnal prosiectau Lullaby yng Nghasnewydd dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Gypsy Stars Choir yn dod â theuluoedd o'r gymuned Roma yng Nghasnewydd ynghyd i gyd-ganu. Mae'r côr yn seiliedig yn Ysgol Gynradd Maindy ac Ysgol Uwchradd Llysweri.

Opera Creators yw ein cynllun gweithdy gwyliau ysgrifennu opera blynyddol ar gyfer plant oed ysgol gynradd a'u teuluoedd. Fel arfer cynhelir perfformiadau yn un o wyliau haf Casnewydd yn cynnwys Gŵyl Maindy a Gŵyl Big Splash

Uwch Gynhyrchydd

Y SWYDD

Rydym yn edrych am berson sy'n angerddol am gerddoriaeth a phobl ifanc ac sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth yng nghymuned Casnewydd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn berson trefnus ac sy'n cymryd yr awenau sydd â'r egni i yrru strategaeth, prosiectau a phartneriaethau. Bydd yn fedrus wrth gyfathrebu, cadw a datblygu perthynas, trefnu cyllideb a chynllunio digwyddiadau.

Mae'r contract ar sail llawrydd am gyfnod penodol. Mae'n rhedeg am 4 mis o fis Rhagfyr 2020 i fis Mawrth 2021. Mae'n gyfwerth â 2.5 diwrnod yr wythnos, ond trefnir patrymau gweithio hyblyg adeg penodi.

Bydd yr uwch gynhyrchydd yn gyfrifol i'r Cadeirydd Llywodraethwyr a bydd yn gweithio law yn llaw gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i gynllunio a datblygu gwaith.

SUT I WNEUD CAIS

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person islaw ac anfon eich CV a llythyr egluro yn dweud wrthyich sut mae'r rôl o ddiddordeb i chi a sut mae'ch profiad yn cyfateb â'r swydd. Anfonwch bopeth at [shwmae@operasonic.co.uk](mailto:shwmae@operasonic.co.uk) os gwelwch yn dda.

Yn lle llythyr egluro, gallech ddweud wrthym am eich sgiliau a'ch profiad mewn fideo byr (dim mwy na thri munud). Awgrymwn eich bod yn defnyddio We Transfer i anfon y fideo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd pen y daith.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw dydd Gwener 20 Tachwedd am 5pm.

Cewch eich hysbysu erbyn dydd Mercher 25 Tachwedd os cawsoch eich gwahodd ar gyfer cyfweliad. Cynhelir cyfweliadau ddydd Gwener 27 Tachwedd.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig i'ch galluogi i wneud cais am y swydd, gadewch i ni wybod drwy anfon e-bost at [shwmae@operasonic.co.uk](mailto:shwmae@operasonic.co.uk) os gwelwch yn dda.

## UWCH GYFARWYDDWR

### Disgrifiad Swydd

Mae swydd Uwch Gyfarwyddwr yn gcontract rhan-amser llawrydd 2.5 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 4 mis rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2020.

Mae'r rôl yn cynnwys y cyfrifoldebau dilynol:

- rheoli prosiectau Operasonic yn cynnwys Nightmare Scenario, Gypsy Stars Choir, Lullaby Project, Opera Creators
- datblygu ceisiadau am gyllid ac ymgyrchoedd codi arian mewn cysylltiad â'r Bwrdd
- rheoli contractau a thaliadau staff llawrydd
- cyfrifeg a chyllidebau prosiectau Operasonic
- datblygu, cynllunio a chyflenwi cynllun busnes Operasonic
- rheoli sianeli cyfryngau cymdeithasol Operasonic
- rheoli a chynnal gwiriadau Datgelu a Gwahardd
- datblygu partneriaethau a pherthnasoedd newydd ar gyfer Operasonic
- cynrychioli Operasonic a'i weledigaeth mewn digwyddiadau a chyfarfodydd allweddol

Sut olwg fyddai ar lwyddiant?

- Canfod cyllid i alluogi parhad y swydd
- Sicrhau ceisiadau llwyddiannus am gyllid
- Prosiectau presennol ar y gweill ac yn mynd rhagddynt
- Cynllun busnes wedi'i ddatblygu'n dda yn ei le ar gyfer dyfodol Operasonic

Nodweddion allweddol y swydd:

- gallu i deithio i Gas-newydd i fynychu sesiynau
- gallu i weithio gartref neu o swyddfa Operasonic
- gwybodaeth waith o lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys Zoom, Google, Facebook, Twitter
- digwyddiadau cyson gyda'r nos ac ar benwythnosau
- mentora a hyfforddiant ar gael i gefnogi datblygiad

Gwybodaeth a Phrofiad

| Hanfodol   | Dymunol  |
|--|--|
| Sgiliau rheoli prosiectau celf                   |  |
| Sgiliau cyllideb                                 |  |
| Profiad o gontractio a thaliadau                 | Pecynnau systemau cyfrifeg e.e. XERO                 |
| Gwybodaeth o'r sector celfyddydau yng Nghymru    | Gwybodaeth o'r sector opera                          |
| Profiad o reoli prosesau artistig                | Profiad o arwain prosiectau artistig                 |
| Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc      | Profiad o weithdrefnau Diogelu Plant a Gwiriadau DBS |
| Profiad o weithio gydag ysgolion                 |  |
| Profiad o gynhyrchu theatr neu ddigwyddiadau byw | Profiad o gynhyrchu opera                            |
| Profiadau o weithio mewn partneriaeth            | Profiad o feithrin partneriaethau                    |
| Profiad o weithio'n ddwyieithog                  | Siaradwr Cymraeg                                     |
| Profiad o gyfrannu at godi arian                 | Profiad o ysgrifennu cynigion am gyllid              |